TELYNAU TEIFI CYF
Canolfan Telynau Cymru
Teras Marmor
LLANDYSUL
Ceredigion
SA44 4DT
Ffôn: 01559 363 222
Ffacs: 01559 362 111
E-bost: ymholiadau@telynauteifi.co.uk
Rhif TAW: 826 5607 17
Rhif Cwmni: 04821960

TELYNAU TEIFI LTD
The Harp Centre of Wales
Marble Terrace
LLANDYSUL
Ceredigion
SA44 4DT
Tel: 01559 363 222
Fax: 01559 362 111
Email: enquiries@telynauteifi.co.uk
VAT No: 826 5607 17
Company No: 04821960

CYTUNDEB HURIO

Dyddiad cychwyn .....

Mae Telynau Teifi yn cytuno i hurio Telyn Rhif i

Enw a Chyfeiriad

Rhif ffôn dydd:
Rhif ffôn nos:
Ffôn symudol:
E-bost

Yn unol â'r telerau isod:

1. Y cyfnod hurio cychwynnol yw ***6*** mis, a daw i ben ar..... Noder mai'r cyfnod hurio lleiaf yw 6 mis.

2. Ar ddiwedd y cyfnod hurio cychwynnol o ***6*** mis, bydd y cytundeb hurio yn parhau ar yr un telerau ag sydd yn y cytundeb hwn. Gellir dirwyn y cyfnod hurio i ben wrth i'r naill barti neu'r llall roi mis o rybudd dros y ffôn, neu drwy lythyr neu e-bost.

3. Telynau Teifi fydd yn yswirio'r delyn. Mae'r Huriwr yn ymgymryd i ofalu am y delyn, i'w chadw mewn amgylchedd priodol, a'i chludo â gofal. Os collir neu os difrodir y delyn, mae'r Huriwr yn ymgymryd i hysbysu Telynau Teifi ar unwaith dros y ffôn neu drwy e-bost. Ni ddylai neb ond Telynau Teifi wneud unrhyw waith trwsio neu gynnal a chadw ar y delyn.

4. Cedwir y delyn gan yr Huriwr yn y cyfeiriad a ddynodir yn y Cytundeb hwn. Rhaid i'r Huriwr hysbysu Telynau Teifi os yw'r delyn i'w chadw mewn unrhyw leoliad arall.

5. Yr Huriwr sy'n gyfrifol am gasglu'r delyn ar gychwyn y cyfnod hurio, ac am ddychwelyd y delyn i Telynau Teifi yn Llandysul heb fod yn hwyrach na diwrnod olaf y cyfnod hurio neu unrhyw gyfnod o rybudd. Os dychwelir y delyn yn hwyr, tynnir swm o'r blaendal a ad-delir, a'r Huriwr fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau a delir gan Telynau Teifi wrth adfeddiannu'r delyn.

6. Yr Huriwr sy'n gyfrifol am newid unrhyw dannau sy'n torri neu a ddifrodir. Dylid cael y tannau oddi wrth Telynau Teifi.

7. Bydd yr Huriwr yn talu blaendal o £100 i Telynau Teifi cyn cychwyn y cyfnod hurio. Ad-delir y blaendal ar ddiwedd y cyfnod hurio os dychwelir y delyn yn brydlon a heb ei difrodi.

8. Y gost hurio fydd £50 y mis (yn cynnwys TAW ac yswiriant), i'w dalu ymlaen llaw.

9. Mae Telynau Teifi'n cadw'r hawl i newid y gost hurio os bydd yr Huriwr yn dymuno parhau i hurio ar ôl diwedd y cyfnod hurio cychwynnol.

10. Gall yr Huriwr brynu'r delyn cyn diwedd y cyfnod hurio (neu cyn diwedd unrhyw gyfnod o rybudd) am bris gwerthu cyfredol y delyn ar adeg ei phrynu. Gosodir cyfran o'r gost hurio a dalwyd hyd at y dyddiad hwnnw yn erbyn y pris, fel a ganlyn:

    100 % o'r gost hurio a dalwyd os telir y pris prynu o fewn 6 mis o gychwyn y cyfnod hurio.

    Ni osodir dim cyfran o'r gost hurio a dalwyd yn erbyn y pris prynu ar ôl 6 mis o gychwyn y cyfnod hurio.

11. Ni chaiff yr Huriwr ddefnyddio'r delyn at ddibenion masnachol, na hurio'r delyn i unrhyw drydydd parti. Os yw'r Huriwr yn dymuno i'r delyn gael ei defnyddio gan rywun na enwir yn y Cytundeb hwn, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Telynau Teifi.

12. Mae Telynau Teifi'n cadw'r hawl i derfynu'r Cytundeb Hurio os:

    Bydd yr Huriwr yn methu talu'r gost hurio ar y dyddiad pan fo'n ddyledus;

    neu

    os bydd yr Huriwr yn torri unrhyw amod yn y Cytundeb Hurio hwn.

    Os terfynir y Cytundeb yn unol â'r cymal hwn, yr Huriwr fydd yn gyfrifol am ddychwelyd y delyn i Telynau Teifi yn Llandysul o fewn 7 diwrnod o'r dyddiad hwn. Os bydd rhaid i Telynau Teifi adfeddiannu'r delyn, tynnir y gost o adfeddiannu o'r blaendal. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhaid i'r Huriwr dalu i Telynau Teifi'r am hurio'r delyn am y cyfnod llawn y cytunwyd arno ym mharagraff 1.

Arwyddwyd ……(Huriwr) Dyddiad……

Arwyddwyd……(Telynau Teifi) Dyddiad……